OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1702

## Rheoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person sy'n gwneud arolygiad o dan adran 4 o'r Ddeddf (arolygiadau gan awdurdodau tai lleol i weld a oes perygl posibl categori 1 neu 2 yn bodoli);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004;

mae "meddiannydd" ("*occupier*") yn cynnwys meddiannydd posibl, ac eithrio yn rheoliad 6(7)(e); ac

ystyr "niwed" ("*harm*") yw niwed sydd o fewn unrhyw un o'r Dosbarthiadau rhwng I a IV fel a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.